Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

Welsh Heritage Schools Initiative




2023

# Enillwyr Gwobrau

DYDD IAU 6ED GORFFENNAF, 2023
AMGUEDDFA GENEDLAETHOL Y GLANNAU - ABERTAWE

DYDD IAU 13EG GORFFENNAF, 2023
AMGUEDDFA LECHI CYMRU - LLANBERIS

www.whsi.org.uk

The Moondance Foundation
Hodge Foundation
Cadw
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Casgliad y Werin Cymru People's Collection Wales
Amgueddfa Cymru
LLGC NLW
CBHC RCAHMW
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales

Welsh Heritage Schools Initiative

Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

**Mae'n bleser gan FENTER YSGOLION Y DREFTADAETH GYMREIG ddathlu 31 mlynedd ers trefnu ein cystadleuaeth a'n seremoni wobrwyo gyntaf .**

Deil yr amcanion a sefydlwyd yn ôl bryd hynny gan bwyllgor wedi ei gadeirio gan ein Llywydd am Oes, y Fonesig Trotman-Dickenson, yr un o hyd. Ein dymuniad yw cymell pobl ifanc mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, ac mewn dosbarthiadau a cholegau chweched dosbarth i ymddiddori yn nhreftadaeth Cymru, i werthfawrogi cyfraniad eu teuluoedd a'u cymunedau iddi, ac i helpu i'w diogelu a chyfrannu ati eu hunain.

Eleni derbyniwyd record o ran nifer ceisiadau ar gyfer y gystadleuaeth a bu'n bosibl i'n haseswyr ymweld ag ysgolion unwaith eto i gwrdd â disgyblion a myfyrwyr i weld canlyniadau eu gwaith. Maent wedi croesawu'r cyfle hwn ac mae safon y ceisiadau, brwdfrydedd y rhai fu'n cymryd rhan a'r gefnogaeth gan athrawon wedi gwneud cryn argraff arnynt.

Mae'n bleser mawr gennym gynnal dwy seremoni wobrwyo fyw eleni, un yn ne Cymru a'r llall yn y gogledd, i groesawu noddwyr, athrawon, disgyblion a myfyrwyr i ddathlu'r prosiectau llwyddiannus a grëwyd ganddynt.

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford
Prif Weinidog Cymru Llywodraeth Cymru

# NEGES O GEFNOGAETH

"Rwy'n falch gallu cefnogi Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig. Mae'n cyfrannu at yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd gan ein pobl ifanc o'u hanes a'u treftadaeth ac yn eu hannog i ymchwilio i, a dysgu o'r gorffennol. Dymuniadau gorau i holl ymgeiswyr y gystadleuaeth flynyddol ar gyfer prosiectau treftadaeth yn ysgolion Cymru."

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DIOLCH I'N NODDWYR

## DIOLCH I'N NODDWYR

**Ni fyddai'r gystadleuaeth hon wedi bodoli nac wedi gallu parhau heb gefnogaeth ein noddwyr. Oddi ar ein cystadleuaeth gyntaf mae Sefydliad Hodge wedi bod yn un o'n prif noddwyr ac yn fwy diweddar cafwyd cefnogaeth sylweddol iawn hefyd gan Grŵp Admiral ccc trwy ei sefydliad elusennol, Moondance. Mae grant blynyddol gan Cadw yn arbennig o bwysig i ni, gan ei fod yn helpu cyllido'r costau gweinyddol a ddaw o drefnu'r gystadleuaeth a'r Seremoni Wobrwyo flynyddol.**

Derbyniwyd cefnogaeth werthfawr hefyd gan ystod o noddwyr eraill: Amgueddfa Cymru, Casgliad y Werin Cymru, SWIEET – Ymddiriedolaeth Addysgol Peirianwyr De Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, nifer o gymdeithasau hanes sirol a lleol, sefydliadau cenedlaethol a gwirfoddol eraill ac unigolion hael.

Eleni rydym yn falch iawn cael cefnogaeth noddwyr newydd, mae un wedi ariannu Gwobr Goffa Richard Price, a Chymdeithas Hanesyddol Merthyr Tudful a'r Cylch. Rydym yn ddiolchgar hefyd i Cadw am gynyddu ei nawdd gan ariannu gwobr a thlws.

## CYDNABYDDIAETHAU ERAILL

Dymuna ymddiriedolwyr Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig ddiolch a mynegi'n gwerthfawrogiad i nifer o bobl, cwmnïau a chymdeithasau sydd wedi helpu mewn amryfal ffyrdd, nid yn unig trwy gyfraniadau ariannol. Mae aelodau'r pwyllgor a'r beirniaid yn rhoi o'u gwasanaeth yn wirfoddol gan fynychu cyfarfodydd, asesu gwaith yr ysgolion, a chefnogi'r seremoni wobrwyo.

Hoffem ddiolch i'r sefydliadau isod sydd wedi cefnogi'r Fenter trwy ddosbarthu ein deunyddiau hyrwyddo:

EAS - Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg De-ddwyrain Cymru

GwE – Consortiwm Gogledd Cymru

Llywodraeth Cymru – DYSG a Hwb

Rydym yn gwerthfawrogi gwaith Catrin Stevens (cyfieithydd) a Mr David Rees, Seer Design Services sy'n rheoli ein gwefan, ac yn cynhyrchu ein taflenni, ein tystysgrifau a'n llyfryn gwobrwyo.

*Delwedd y clawr:* Ysgol Bro Pedr

Welsh Heritage Schools Initiative

Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

# Neges y Cadeirydd

**Yn dilyn dwy flynedd o fod yn gystadleuaeth ddigidol, mae hi wedi bod yn bleser dychwelyd eleni i allu ymweld ag ysgolion unwaith eto i arfarnu eu prosiectau. Diolch i'r holl ysgolion sydd wedi cystadlu eleni ac am groesawu ein beirniaid. Roedd yn fraint cyfarfod â dysgwyr brwdfrydig, awyddus a balch i drafod eu prosiectau ac arddangos eu gwaith. O'r ieuengaf i'r hynaf, mae'n galonogol gweld y fath angerdd wrth iddynt archwilio eu cynefin, darganfod mwy am stori Cymru ac i weld eu balchder yn eu treftadaeth eu hunain.**

Gan fod mwy o ysgolion wedi cystadlu eleni nag ers rhai blynyddoedd, mae'n amlwg bod gofyniad y cwricwlwm newydd yn sicrhau bod ein cystadleuaeth mor berthnasol ac apelgar ag erioed. Roedd y rhan fwyaf o'r prosiectau a welwyd eleni o ansawdd uchel ac yn wirioneddol drawsgwricwlaidd, gan roi cyfleoedd i ddysgwyr nid yn unig ddarganfod rhagor am gyfoeth ac amrywiaeth eu treftadaeth ond hefyd i ddatblygu ystod o sgiliau, gan gynnwys fel dysgwyr uchelgeisiol a dinasyddion moesegol a gwybodus.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rwy'n siŵr y bydd enillwyr gwobr MYDG EUSTORY yn llysgenhadon rhagorol i Gymru os cânt eu dewis i ymuno ag Ewropeaid ifanc eraill mewn cynhadledd ym Mhrâg yr hydref hwn.

Mae ein Menter yn ddiolchgar iawn i'n holl noddwyr ffyddlon am eu haelioni dros y blynyddoedd, gan gynnwys Sefydliadau Moondance a Hodge. Diolch i Cadw am eu cefnogaeth ychwanegol eleni, ac i'n noddwyr newydd, Cymdeithas Hanesyddol Merthyr Tudful a'r Cylch a noddwr Gwobr Goffa Richard Price. Rydym yn ddiolchgar i Amgueddfa Cymru am ein galluogi i gynnal ein Seremoni Wobrwyo yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn ogystal â digwyddiad i ysgolion y Gogledd yn Amgueddfa Lechi Cymru. Gyda chefnogaeth ein holl noddwyr a'n cefnogwyr, mae'n anrhydedd i MYDG gydnabod a dathlu'r gwaith rhagorol sy'n digwydd mewn ysgolion ledled Cymru. Diolch yn fawr i'n holl noddwyr.

Gan mai hon yw fy mlwyddyn olaf fel Cadeirydd, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch yn bersonol i bawb sy'n ymwneud â'r Fenter, yn enwedig i'r ddau Ymddiriedolwr arall, Alison Denton a Stuart Broomfield am eu cyngor a'u hymroddiad, ac am weithio'n ddiflino yn y cefndir i sicrhau rhediad llyfn y gystadleuaeth, ac i aelodau ymroddedig ein pwyllgor am eu cefnogaeth barhaus a diwyro. Rwyf wedi gwerthfawrogi hyn oll yn fawr iawn.

Mae hi wedi bod yn fraint cydweithio gyda thîm o wirfoddolwyr mor ymroddedig drwy gyfnod heriol a'n bod wedi gallu dathlu ein 30ain cystadleuaeth y llynedd gyda'n gilydd.



**Angharad Williams**
*Cadeirydd Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig*

# DIOLCH I ATHRAWON A DISGYBLION

**Bob blwyddyn, mae Pwyllgor Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yn gwahodd ysgolion babanod, cynradd, ac uwchradd ac ysgolion arbennig a darpariaeth amgen, Colegau Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach i wneud prosiectau treftadaeth a'u cyflwyno ar gyfer cystadleuaeth dreftadaeth genedlaethol.**

Mae'r prosiectau hyn yn gofyn am ymchwilio, casglu deunyddiau, dadansoddi a gwerthuso. Gall y deilliannau fod ar ffurf llyfrynnau, arddangosfeydd, perfformiadau dramatig, ffilmiau, animeiddiadau a chyflwyniadau yn defnyddio technoleg ddigidol.

Caiff gwaith y bobl ifanc ei asesu, gan ystyried y lefel briodol o lythrennedd, rhifedd, a sgiliau technoleg gwybodaeth. Anogir disgyblion i ddenu eu cymunedau a phobl o genedlaethau gwahanol i gyfrannu at eu prosiectau, ac i rannu eu darganfyddiadau.

**Hoffem ddiolch i'r athrawon a'u disgyblion am gymryd rhan yn y Fenter ac am gyflwyno prosiectau o safon uchel dros ben.**

# SEREMONÏAU GWOBRWYO YN AMGUEDDFA GENEDLAETHOL Y GLANNAU, ABERTAWE AC AMGUEDDFA LECHI CYMRU, LLANBERIS

Hoffem ddiolch i Steph Mastoris, Pennaeth Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ac Elen Roberts, Pennaeth Amgueddfa Lechi Cymru am ganiatâd i ddefnyddio'r ddwy amgueddfa fel lleoliadau ar gyfer ein digwyddiadau i ddathlu cystadleuaeth 2023, ac i Eleri Evans, Leisa Williams a Lowri Ifor am eu cyngor a'u cefnogaeth wrth wneud y trefniadau. Rydym yn ddiolchgar i holl staff Amgueddfa Cymru am eu cymorth i wneud ein dathliadau seremonïol yn llwyddiant.

### 'MEWN CYMERIAD'

Diolch yn fawr i Eleri Twynog Davies, o 'Mewn Cymeriad' am drefnu sioeau hanes byw yn rhan o'n cyflwyniadau yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ac i'r actorion Anwen Carlisle a Dyfed Cynan.

Diolch hefyd i David Rees, Seer Design Services a gynhyrchodd y cyflwyniadau Pwerbwynt ar gyfer y seremonïau.

Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

Welsh Heritage Schools Initiative

# NODDWYR, GWOBRAU A GRANTIAU

| | |
|---|---|
| Sefydliad Moondance (Grŵp Admiral ccc )<br>(£12,000 gwobrau + £3000 gweinyddu) | **£15,000** |
| Sefydliad Hodge | **£10,000** |
| Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig | **£4,000** |
| Casgliad y Werin Cymru | **£1,000** |
| SWIEET Ymddiriedolaeth Addysgol Peirianwyr De Cymru | **£1,000** |
| Gwobr Goffa Richard Price | **£1,000** |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | **£600** |
| Cadw | **£500**<br>**a thlws** |
| Archif Menywod Cymru | **£300** |
| Gwobr Goffa Catherine a Daniel Phillips | **£250** |
| Cymdeithas Hanes Morgannwg, Gwobr Goffa Patricia Moore | **£250** |
| Cyfeillion Amgueddfa Caerfyrddin | **£250** |
| Cymdeithas Hanesyddol Merthyr Tudful a'r Cylch | **£250** |
| Yr Arglwydd Brooke o Alverthorpe | **£250**<br>**Costau teithio tuag at ymweliad â Thŷ'r Arglwyddi** |
| Mewn Cymeriad | **Cyflwyniad dramatig gan gymeriad hanesyddol** |
| Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin | **£200** |
| Cymdeithas Hanes Llantrisant a'r Cylch<br>(Gwobr Goffa Trefor Rees & Eric Griffith) | **£200** |
| Soroptimyddion Rhyngwladol Y Barri a'r Fro | **£200** |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | **ymweliad gan archeolegydd** |
| Cyngor Llyfrau Cymru | **ymweliad gan awdur** |
| Gwobr Goffa Herbert Hewell | **£100** |

**Tariannau**

| | |
|---|---|
| Amgueddfa Cymru | **Cyflwynir i'r prosiect gorau ymhob categori** |

**Grantiau a Nawdd mewn Da**

| | |
|---|---|
| CADW | **£2,000** |
| Seer Design | **Cymorth TG** |

Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig — Welsh Heritage Schools Initiative

# AELODAU PWYLLGOR MENTER YSGOLION Y DREFTADAETH GYMREIG

**Lady Trotman-Dickenson MBE** Llywydd Anrhydeddus am Oes
**David Maddox OBE** Is-lywydd Anrhydeddus am Oes

**Angharad Williams**
**(Cadeirydd ac Ymddiriedolwraig)**
Cyn-reolwr Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

**Dr. Huw Griffiths (Is-gadeirydd)**
Uwch-ddarlithydd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

**Dr. Stuart Broomfield (Ymddiriedolwr)**
Trysorydd, Cyn-ymgynghorydd Addysg

**Alison Denton (Ymddiriedolwraig)**
Ysgrifennydd Cyswllt Ysgolion
Arholwraig CBAC Hanes a Gwleidyddiaeth

**Gareth Wyn Jones**
AEM Estyn, (wedi ymddeol)

**Catrin Stevens**
Cyn-bennaeth Hanes Coleg y Drindod, Caerfyrddin

**Gill Foley**
Dirprwy Bennaeth (wedi ymddeol)

**Jeanne Evans**
Cyn-ddirprwy Bennaeth,
Ysgol Gyfun Sant Cenydd, Caerffili

**Hefin Matthias**
Cyn-bennaeth Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

**Scott Harper**
Pennaeth (wedi ymddeol)

**Ben Price**
Swyddog Addysg, Cyfranogi a Dehongli
Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru

**Dr Elin Jones**
Ymgynghorydd Addysg a darlledwraig

**Ladan Harper**
Golygydd Llyfryn Gwobrwyo
Pennaeth wedi ymddeol

**Heather Lewis**
Pennaeth wedi ymddeol

**Mark Williams**
Arweinydd Rhaglen Ôl-radd Uwchradd
Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd.

**Aled Rumble**
Athro ymgynghorol Ceredigion
Cwricwlwm i Gymru

**Nia Williams**
Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu,
Amgueddfa Cymru – Museum Wales

**Geraint Bevan**
Cyn-ymgynghorydd Addysg (ERW),
(wedi ymddeol)

**Ann Dorsett**
Swyddog Amgueddfeydd (wedi ymddeol)

**Eleri Evans**
Pennaeth Addysgu a Dehongli, Amgueddfa Cymru – Museum Wales

**Jan Dennis**
Cyn-athrawes gynradd Ysgol Gynradd Cwmlai

**Martin Williams**
Pennaeth cynorthwyol Ysgol Henry VIII, Y Fenni

**Carole Bryan-Jones**
Pennaeth Hanes, Coleg Sant Ioan

**Esta Lewis**
Goruchwylydd Gweithredol Gwasanaethau Treftadaeth ac Allgymorth
Gwasanaethau Treftadaeth Rhondda Cynon Taf

**David Thomas**
Pennaeth Gwasanaethau Cyhoeddus
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

**Rhodri Morgan**
Rheolwr Gwasanaethau Addysg
Llyfrgell Genedlaethol Cymru

**Sandra Elson**
Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol
Cyn-bennaeth Hanes

## BEIRNIAID WEDI'U CYFETHOL

Hoffem ddiolch i'r beirniaid cyfetholedig hyn am eu cymorth:

Carla Price, Amgueddfa Cymru -Museum Wales; Lowri Ifor, Rheolwr Addysgu, Amgueddfa Lechi Cymru; Catalena Angele, Casgliad y Werin Cymru; Owain Dafydd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Susan Mason, Cadw; Adele Thackray, Cadw; Tim Hill, Cadw; Clive Thomas, Prifathro wedi ymddeol.

Welsh Heritage Schools Initiative
Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

# Enillwyr Gwobrau 2023
# Y Cyfnod Sylfaen

**Sefydliad Hodge**
*Gwobr:* **£800**

**YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL MAERDY**
**Rhondda Cynon Taf**

*Teitl:* **Made and Moulded in Maerdy**
**(Gwnaed a Moldiwyd ym Maerdy)**

Canolbwyntiodd y prosiect hwn ar hanes Maerdy yn yr ugeinfed ganrif, ac mae wedi goleuo ac addysgu disgyblion y cyfnod sylfaen am hanes eu hardal leol a sut mae'r hanes hwnnw wedi effeithio ar eu bywydau presennol a'u cymuned a'u lle ynddi. Edrychwyd yn fanwl ar sut mae pobl o'r ardal leol wedi cyflawni eu huchelgeisiau a'u dyheadau a sut y gallai'r disgyblion efelychu'r 'meibion enwog' hyn a llunio eu dyfodol eu hunain fel dinasyddion gwybodus. Bydd y prosiect hwn yn parhau i ysbrydoli dysgwyr at y dyfodol. Canmolir yr holl disgyblion am y prosiect hwn.

**Sefydliad Moondance**
*Gwobr:* **£450**
**Soroptimyddion Rhyngwladol y Barri a'r Fro**
*Gwobr:* **£200**

**YSGOL GYNRADD COGAN**
**Bro Morgannwg**

*Teitl:* **Discovering and Celebrating Our Local Heritage**
**(Darganfod a Dathlu ein Treftadaeth Leol)**

Nodwedd y prosiect hwn oedd brwdfrydedd y disgyblion a'u hawydd i rannu eu canfyddiadau a chynnwys y pwnc gydag eraill. Gan fod ganddynt ddisgyblion o amrywiaeth o grwpiau ethnig, roedd yn ymddangos yn ddewis naturiol eu bod yn dathlu nid yn unig yr amrywiaeth hwn o fewn y dosbarth, ond yn edrych hefyd ar y sefyllfa ledled Cymru.

Roedd yr astudiaethau a'r ymchwil i amrywiol agweddau yn cynnwys: eu gwreiddiau eu hunain, cysylltiadau Paul Robeson â Chymru/glowyr; llwyddiannau/gwaddol Betty Campbell; sgandal Windrush. Mae disgyblion wedi ymgyfarwyddo â'r gair 'Cyffiniau'. Roedd hwn yn brosiect cyffrous nad oedd wedi ei gyfyngu gan oedran y plant a oedd yn arddangos nid yn unig wybodaeth am y materion dan sylw, ond empathi yn ogystal.

## Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig
*Gwobr:* **£400**
## Cymdeithas Hanesyddol Merthyr Tudful a'r Cylch
*Gwobr:* **£250**

### YSGOL GYNRADD CYFARTHFA PARK
### Merthyr Tudful

### *Teitl:* Our Journey to Patagonia (Ein Taith i Batagonia)

Yn y prosiect hwn archwiliodd y disgyblion y pethau hynny y maent yn falch ohonynt ym mywyd Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys: Parciau Cenedlaethol, Tirluniau, Personoliaethau a Thraddodiadau Gwerin. Trwy eu hymchwil ychwanegwyd at eu gwybodaeth am y Diwylliant Cymreig yn gyffredinol ac roedd yn cynnwys astudiaeth o grŵp a adawodd Gymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i ymsefydlu ym Mhatagonia. Yma, dysgon nhw am rai o'r anawsterau a'r caledi a ddioddefwyd. Cymerodd yr holl ddisgyblion ran mewn cyflwyniad cynhwysfawr, brwdfrydig a hyfryd o'r gwaith a gynhyrchwyd. Roedd y cynnyrch diddorol, lliwgar ac eang ei rychwant o waith a arddangoswyd o safon uchel iawn ac yn tystiolaethu i'r ymdrech a wnaethpwyd.

## Cadw
*Gwobr:* **£500 a THLWS Cadw**
## Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig
*Gwobr:* **£150**

### YSGOL BABANOD WIRFODDOL LLANELWY
### Sir Ddinbych

### *Teitl:* Ein Cynefin

Roedd y prosiect hwn yn uchelgeisiol iawn ar gyfer yr oedran hwn. Cafwyd ystod o gyflwyniadau bywiog a oedd yn dehongli'r pwnc mewn sawl ffordd weithredol. Roedd y disgyblion yn frwdfrydig ac yn wybodus. Fel dysgwyr y Gymraeg cyflwynwyd y gwaith yn ddwyieithog. Roedd ymdeimlad cryf o hunaniaeth Gymreig mewn cân, adrodd stori, gwaith celf (llwyau caru), coginio (cawl cennin a thatws) ac adeiladu (eglwys o focs cardfwrdd – a adeiladwyd yn dilyn ymweliad ymchwil). Defnyddion nhw dechnoleg ddigidol i greu fideos 'seesaw' a fideos gweithredu i gyd-fynd â'r caneuon. Ymchwiliodd a pherfformiodd y disgyblion ddawnsfeydd gwerin.

Cyflwynwyd y perfformiadau hyn mewn Eisteddfod yn y Gadeirlan ac maen nhw'n rhan o brosiect cyfredol, gyda llysgenhadon penodedig, i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ledled yr ysgol.

**Sefydliad Moondance**
*Gwobr:* **£450**

## YSGOL GYNRADD CWMFFRWDOER
## Torfaen

### *Teitl:* Carys the Caterpillar Finds a New Home (Carys y Lindysyn yn Ffeindio Cartref Newydd)

Cyflwynodd Ysgol Gynradd Cwmffrwdoer brosiect ysbrydoledig a difyr a gipiodd ddychymyg y disgyblion Meithrin a Derbyn a oedd yn rhan ohono.

Cynhyrchodd y disgyblion waith celf ac animeiddiadau a oedd yn trin themâu dad-ddiwydiannu ardaloedd glofaol a gweithfeydd haearn Cymru mewn modd diddorol a blaengar.

Dathlwyd yr amgylchedd, y fioamrywiaeth a'r tirlun o gwmpas yr ysgol ac archwiliwyd hanes diwydiannol yr ardal mewn prosiect a oedd wedi ei deilwra ar gyfer dysgwyr ieuengaf Cwmffrwdoer.

Bydd gwaddol y prosiect yn parhau i gael ei ddathlu yn y llyfr gwych 'Carys the Caterpillar finds a New Home', a gynhyrchwyd ac a ddarluniwyd gan y disgyblion.

**Sefydliad Moondance**
*Gwobr:* **£200**

## YSGOL ISAF GARTH OLWG
## Rhondda Cynon Taf

### *Teitl:* Ein Cynefin

Roedd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar gynefin yr ysgol ym Mhentre'r Eglwys ac ar sut roedd yr ardal yn rhan o hanes ehangach Cymru a'r byd. Tyfodd yr hyn a ddechreuodd fel cwestiwn diniwed ynghylch a oedd dinosoriaid wedi byw ym Mhentre'r Eglwys yn ymchwil am ffosilau a darganfyddiadau archeolegol, cestyll canoloesol, y wisg genedlaethol Gymreig a sut y bu'r ysgol ar flaen y gad ym myd addysg Gymraeg. Mwynhaodd y disgyblion wrando ar awduron, gwylio adluniadau dramatig a chynhyrchu eu gweithiau celf eu hunain i gyd o fewn cyd-destun eu hanes lleol.

**Sefydliad Hodge**
*Gwobr:* **£200**

## YSGOL MYNACH
## Ceredigion

### *Teitl:* Bara, Menyn a Jam

Prif nod y prosiect hwn oedd cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion ifanc am ffynonellau bwydydd, gan ddilyn teithiau bara, menyn a jam o'r caeau i'r plât. Roedd disgrifiadau byrlymus y disgyblion o'u hymweliadau â'r fferm odro, y felin falu a'r popty - yn ogystal â'u sgyrsiau gydag arbenigwyr - yn dystiolaeth o'u dealltwriaeth o drefn a phwysigrwydd y prosesau angenrheidiol. Plethwyd y ffeithiau a'r wybodaeth yn drwch drwy eu profiadau, wrth iddynt adrodd â brwdfrydedd beth a ddysgwyd, a'r hyn a gyflawnwyd ganddynt.

Welsh Heritage Schools Initiative — Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

# Enillwyr Gwobrau 2023
# **Ysgolion Cynradd ac Iau – Prosiectau Ysgol Gyfan**

**Sefydliad Moondance**
*Gwobr:* **£800**

## YSGOL GYNRADD BAGLAN
### Castell-nedd Port Talbot

*Teitl:* **From the Caribbean to Cymru (O'r Caribî i Gymru)**

Mae Ysgol Gynradd Baglan wedi ymchwilio ac wedi deall Cenhedlaeth Windrush yn ardderchog ynghyd â'r hanesion cysylltiedig yn eu hardal leol. Roeddent wedi ymwneud ag ystod eang o bobl o'u cymuned leol a oedd yn rhan o Genhedlaeth Windrush i gael dealltwriaeth ragorol o fudo, hiliaeth a chydweithrediad cymunedau. Roedd y prosiect yn cwmpasu pwysigrwydd cynefin ac roedd y disgyblion yn hynod falch o'u treftadaeth yn eu gwaith a'u perfformiadau. Roedd hyd yn oed y plant iau wedi gallu deall sut deimlad oedd e i adael popeth cyfarwydd ar ôl, tra'r oedd y plant hŷn yn gallu amgyffred materion cymhleth fel hiliaeth. Arddangoswyd y ddealltwriaeth hon trwy gelf, cerddi, cerdd, dawns ac ysgrifennu estynedig. At hyn rhannon nhw eu gwybodaeth trwy Gaffé Cynefin, Carnifal Cymreig-Garibïaidd, Diwrnod Amrywiaeth, a pherfformiad ar gyfer rhieni.

**Sefydliad Moondance**
*Gwobr:* **£650**
**Cyngor Llyfrau Cymru**
*Gwobr:* **Ymweliad gan awdur**

## YSGOL HAFODWENOG
## Sir Gaerfyrddin

### *Teitl:* Dewch i ddathlu: Hafodwenog yn 50

Sefydlwyd yr ysgol hon yn Nhre-lech 50 mlynedd yn ôl ar safle hen fferm o'r enw Hafodwenog a gafodd, yn ôl yr hanes, ei defnyddio gan 'Beca' i gynllunio eu hymosodiadau ar dollbyrth yng ngorllewin sir Gaerfyrddin. Ymchwiliodd y disgyblion i pam y sefydlwyd yr ysgol ac astudiwyd bywyd yn y gymuned yn yr 1970au. Buon nhw'n cyfweld cyn-ddisgyblion a gofyn cwestiynau treiddgar am fywyd yn y cyfnod hwnnw.

Ystyriodd y disgyblion bartneriaethau eraill a grëwyd yn ystod yr 50 mlynedd ddiwethaf megis gweithio gydag artistiaid a dawnswyr gwerin. Cydweithiwyd â'r Welsh Whisperer i greu cân i'r ysgol ddwy flynedd yn ôl ac ail-ymwelwyd â hon i'w diweddaru i nodi pen-blwydd sefydlu'r ysgol. Roedd y disgyblion yn gwybod hanes eu hysgol a'r gymuned ehangach a siaradon nhw yn rhugl a chydag arddeliad am eu prosiect.

**Sefydliad Moondance**
*Gwobr:* **£650**
**Mewn Cymeriad**
*Gwobr:* **Cyflwyniad dramatig gan gymeriad hanesyddol**

## YSGOL GYNRADD TY'N Y WERN
## Caerffili

### *Teitl:* Bran and Bees: Legends of Twmbarlwm (Brân a Gwenyn: Chwedlau Twmbarlwm)

Deilliodd y prosiect hwn o ddiddordeb y disgyblion yn y chwedlau am Bendigeidfran, pennaeth llwythol o Oes yr Haearn. Honnir iddo gael ei gladdu ar fryn lleol ac aneddiad o Oes yr Haearn o'r enw Twmbarlwm a bod ei drysor wedi ei warchod gan wenyn.

Ysbrydolodd yr hanesion y disgyblion i ymgymryd ag astudiaeth helaeth o chwedlau lleol a Chymreig o'r Mabinogi a chwedlau o rannau eraill o Gymru.

Roedd hwn yn brosiect trawsgwricwlaidd ysgol gyfan a fwynhaodd y disgyblion a, thrwy hynny, cawson nhw gyfoeth o wybodaeth a rhychwant eang o sgiliau a gymhwyswyd i gyd-destunau gwahanol.

Trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, mae prosiect 'Brân a Gwenyn' wedi ei gymeradwyo yn uchel gan rieni a mudiadau lleol a chenedlaethol ac mae'n datblygu yn chwedl leol ei hun.

**Sefydliad Hodge**
*Gwobr:* **£650**

## YSGOL GYNRADD TON PENTRE
## Rhondda Cynon Taf

### *Teitl:* Cytgord yn Ton in Harmony – Who do we think we are? (Pwy ydyn ni'n meddwl ydyn ni?)

Trwy gyfrwng y prosiect hwn darganfu plant Ysgol Gynradd Ton Pentre pwy oedden nhw mewn gwirionedd. Archwiliodd Cytgord yn Ton yr ardal leol, ei gorffennol, ei phresennol a'i dyfodol yn rhagorol. Y plant oedd yn arwain y dysgu ac mewn gwirionedd dysgon nhw beth oedd bod yn ddinasyddion da o'u cymuned. Cafodd y plant eu hysbrydoli gan storïau lleol a phobl o'r gymuned a'u gyrrodd i ddysgu am dreftadaeth yr ardal yn ogystal ag am Gristnogaeth, Bwdïaeth, dyneiddiaeth ac effaith daearyddiaeth ar y gymuned. Roedd y balchder a gafodd y plant o'r dysgu yn amlwg yn eu gwaith ac o sut roeddent yn siarad am eu dysgu. Bydd y prosiect yn gwneud i chi ddymuno eich bod chi yn dod o Ton! Mae'r plant wedi crisialu'r prosiect yn berffaith trwy ddweud bod Cytgord yn Ton yn golygu pawb gyda'i gilydd a deall pawb.

**Sefydliad Hodge**
*Gwobr:* **£650**

## YSGOL GYNRADD GARNTEG
## Torfaen

### *Teitl:* Cynefin

Roedd prosiect Ysgol Gynradd Garnteg yn dathlu treftadaeth leol yr ysgol. Cynhwyswyd disgyblion yr ysgol gyfan i archwilio eu hanes a daeth â'r ysgol a'r gymuned ehangach at ei gilydd.

O orffennol diwydiannol yr ardal, i ddamwain Awyren Fomio Blenheim yn ystod yr Ail Ryfel Byd, creodd y disgyblion 'amgueddfa' yn yr ysgol i arddangos y gelf, y modelau, y llenyddiaeth a'r hanesion a gynhyrchwyd. Rhannon nhw eu gwaith trwy ddarllediad radio a oedd i'w glywed ledled y byd, hyd yn oed!

Ysbrydolodd 'Cynefin' y dysgwyr a bu'n ganllaw i gofio hanes pwysig yr ardal.

**Sefydliad Hodge**
*Gwobr:* **£650**

## YSGOL GYNRADD GLASLLWCH
## Casnewydd

### *Teitl:* Cynefin

Dathlodd prosiect Ysgol Gynradd Glasllwch hanes ac amrywiaeth cyfoethog yr ysgol a Chasnewydd.

Cynhyrchodd y disgyblion ystod ryfeddol o waith, o wisgoedd hardd i hanesion manwl sy'n bwysig i'r ardal, gan ystyried pynciau fel Siartiaeth a Phont Gludo Casnewydd, cloddio am lo a datblygiad y Gymru fodern. Gwnaeth angerdd y staff a brwdfrydedd y disgyblion o blaid y prosiect argraff ar y beirniad.

Cyflwynodd Ysgol Glasllwch brosiect da iawn gyda'r gymuned yn ganolog iddo.

**Sefydliad Hodge**
*Gwobr:* **£650**

## YSGOL GYNRADD LLANNON
## Sir Gaerfyrddin

### *Teitl:* Dewch i Lannon i chwilio am Beca

Edrychodd Ysgol Llannon ar effaith Helyntion Beca ar eu cymuned a sut y cânt eu cofio heddiw. Cynhyrchon nhw gelf a gwaith ysgrifenedig o safon uchel gan ddefnyddio ystod o ffynonellau a gwaith maes lleol. Defnyddiwyd dulliau dychmygus i arddangos rhai o'u canfyddiadau. Edrychon nhw yn greadigol ar fywyd Jac Tŷ Isha yn Tasmania gan gymharu Cymru â'r ynys. Gweithion nhw gyda'r Fenter Iaith leol i gynhyrchu Podlediad a chreu Amgueddfa ddosbarth effeithiol ac amrywiol. Dangosodd y disgyblion gymhelliant uchel a siaradon nhw'n frwd ac yn gywir am eu hymchwil.

**Casgliad y Werin Cymru: Rhagoriaeth Ddigidol**
*Gwobr:* **£500**
**Sefydliad Hodge**
*Gwobr:* **£150**

## YSGOL GYNRADD PEN-BOYR
## Sir Gaerfyrddin

### *Teitl:* Hamddena Hwylus

Astudiodd disgyblion Ysgol Pen-boyr weithgareddau hamdden ym mhentref Dre-fach gynt. Darganfuon nhw bod llawer o weithgareddau hamdden yn cael eu mwynhau yno a nodon nhw eu lleoliadau. Tynnodd y disgyblion ddata ynghyd a chreon nhw daflenni gwybodaeth a gemau yn seiliedig ar eu hymchwil. Yn rhan o'r prosiect, gosodwyd taflenni gwybodaeth yn neuadd y pentref. Mae codau QR ar y paneli sy'n arwain at berfformiadau gan y disgyblion. Ymwelodd y disgyblion â safleoedd lleol a llwyddwyd i ymgynghori â thrigolion lleol.

**Sefydliad Moondance**
*Gwobr:* **£550**

## YSGOL GYNRADD DANESCOURT
## Caerdydd

### *Teitl:* Pwy ydyn ni?: A whole school context on Identity and Diversity (Cyd-destun ysgol gyfan ar Hunaniaeth ac Amrywiaeth)

Trwy astudio agweddau ar y dreftadaeth a'r diwylliant Cymreig, anogwyd disgyblion i feddwl am hunaniaeth Gymreig. Y nod oedd adeiladu darlun o sut roedd gorffennol Cymru wedi dylanwadu ar y genedl gyfoethog ac amrywiol ei diwylliant a geir heddiw a sut y bydd gan bobl ifanc rôl fawr i'w chwarae yn ffurfio dyfodol Cymru yn y Gymru'r hoffen nhw. Cafodd disgyblion gyfleoedd i weithio ar draws y cwricwlwm; fodd bynnag Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol oedd y cyfrwng y bu dysgwyr yn archwilio, ymateb, adlewyrchu a chreu trwyddo. Y disgyblaethau o fewn y Maes hwn yw Dawns, Cerdd, Celf a Ffilm a'r Cyfryngau Digidol.

## Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

*Gwobr:* **£550**

### YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL HOLT
**Wrecsam**

*Teitl:* **It's not just Jam (Nid dim ond jam yw e)**

Canolbwyntiai'r prosiect ar cynefin, hanes trwy'r gymuned leol. Roedd wedi ei seilio'n glos ar agwedd trawsgwricwlaidd. Archwiliodd gyfnod yr Ail Ryfel Byd fel y profwyd ef gan ran benodol o'u cymuned leol fechan. Ymchwiliodd y plant hanes fel roedd yn digwydd yn eu pentref a'r effaith a gafodd ar genedlaethau cynt o'u cymuned. Portreadodd y prosiect hwn trwy flasu, celf, profiad a chyflwyniadau digidol. Roedd gwybodaeth, balchder a brwdfrydedd y plant yn galondid i'w weld - gwelais bot o jam cartref hyd yn oed.

## Sefydliad Moondance

*Gwobr:* **£550**

### YSGOL GYNRADD RHOS
**Castell-nedd Port Talbot**

*Teitl:* **Cynefin**

Roedd y prosiect wedi'i seilio ar ardal leol Rhos yng Nghastell-nedd /Port Talbot. Gwnaeth disgyblion gyflwyniadau ar eu cynefin, cyn edrych ar hanes yr ysgol, yna'r pentref a datblygiadau ym mhatrymau aneddiadau cyfoes. Cynhaliwyd nifer o ymweliadau gan gynnwys i safle hen fwynglawdd, fferm leol a Pharc Gwledig Craig y Nos. Arweiniodd yr ymweliadau hyn at astudiaethau dilynol da lle estynnwyd sgiliau ymholi disgyblion ac amrywiaeth o'u sgiliau cyflwyno, yn effeithiol. Roedd gan y prosiect hwn gysylltiadau effeithiol ag agweddau ehangach o dreftadaeth Cymru.

**Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig**
*Gwobr:* **£350**
**Cymdeithas Hanes Llantrisant a'r Cylch**
**(Gwobr Goffa Trefor Rees & Eric Griffith)**
*Gwobr:* **£200**

## YSGOL GYNRADD GYMRAEG TONYREFAIL
## Rhondda Cynon Taf

*Teitl:* **Ar Stepen fy Nrws**

Llwyddodd yr ardal leol, sef ffocws y prosiect ysgol gyfan yma, i sbarduno gwaith ar draws yr holl flynyddoedd. Yr efail neu'r einion yn Nhonyrefail oedd prif ddiddordeb ambell ddosbarth tra'r oedd eraill wedi edrych yn fwy manwl ar y newid yn yr adeiladau a'r dirwedd. Bu'r disgyblion yn casglu ystod o dystiolaethau gan gynnwys ymweld ag archifdy lleol a chasglu hen luniau o'r ardal. Fe ddwedodd nifer o'r disgyblion eu bod wedi darganfod rhywbeth newydd am eu hardal ac roeddent yn falch iawn o'r hyn a ganfuwyd.

**Sefydliad Hodge**
*Gwobr:* **£450**

## YSGOL GYNRADD CARREGHWFA
## Powys

*Teitl:* **Explore Llanymynech (Archwilio Llanymynech)**

Prosiect cyffrous yn seiliedig ar archwilio hanes a chysylltiadau ehangach yr ardal o'r Oes Efydd hyd at yr ugeinfed ganrif. Roedd y dull arloesol o gyfathrebu canlyniadau trwy gyfrwng map a chodau QR wedi eu gosod ar safleoedd o ddiddordeb hanesyddol yn gryfder arbennig. Roedd brwdfrydedd y disgyblion a'u syndod wrth wneud darganfyddiadau yn amlwg. Roedd y cysylltiadau â meysydd eraill y cwricwlwm yn nodwedd gref o'r prosiect.

**Sefydliad Hodge**
*Gwobr:* **£450**

## YSGOL GYNRADD CWMCLYDACH
## Rhondda Cynon Taf

*Teitl:* **Land of Legends – How is our community influenced by the past?**
**(Gwlad Chwedlau- Sut caiff ein cymuned ei dylanwadu gan y gorffennol?)**

Archwiliodd y prosiect ysgol-gyfan hwn agweddau gwahanol ar hanes Cwm Clydach a Chwm Rhondda. Edrychodd pob cam cynnydd ar bynciau gwahanol, o barciau i dirluniau i gloddio am lo, er mwyn creu darlun mwy o'u treftadaeth leol. Arweiniodd y prosiect y dysgwyr i feddwl sut y gallant hwy edrych ar ôl eu hardal. Cynhaliodd y dysgwyr sesiwn codi sbwriel noddedig ac Arddangosfa Gelf ac Arwerthiant o waith celf y plant a ysbrydolwyd gan y prosiect. Cynorthwyodd yr arian a godwyd i wneud yr ysgol a'r ardal o'i chwmpas yn fwy gwyrdd.

## Sefydliad Hodge
*Gwobr:* **£450**

### YSGOL GYNRADD CWM-NEDD
### Castell-nedd Port Talbot

### *Teitl:* A Tribute to Ruth Madoc (Teyrnged i Ruth Madoc)

Ymchwiliodd y disgyblion fywyd Ruth Madoc a chynhyrchu amrywiaeth diddorol o waith ysgrifenedig a oedd yn adlewyrchu empathi a gwybodaeth dda am ei bywyd, ei hanes teuluol a'i chysylltiadau â'r ysgol a chymuned ehangach Glyn-nedd. Ysgrifennodd disgyblion Blwyddyn 5 broffiliau trydydd person ohoni mewn Cymraeg ail iaith o ansawdd da. Cynhyrchodd y disgyblion ystod dda o waith cysylltiedig â chrefft greadigol amrywiol. Roedd ei gwaith elusennol yn ysbrydoliaeth i ddisgyblion gefnogi eraill llai ffodus na nhw eu hunain.

## Sefydliad Hodge
*Gwobr:* **£350**
**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**
*Gwobr:* **Ymweliad gan archeolegydd**

### YSGOL SYR JOHN RHYS
### Ceredigion

### *Teitl:* Nabod Nant-y-moch

Gyda brwdfrydedd y cyflwynodd y disgyblion bortread o ardal Ponterwyd a Nant-y-moch, cyn ac ar ôl adeiladu'r gronfa ddŵr. Arweiniodd eu hymweliadau a'u gwaith ymchwil at gynhyrchu podlediad ynghyd ag amrywiaeth o weithiau celf, ac adlewyrchwyd angerdd y plant tuag at eu cynefin yn y cydweithio gyda'r arbenigwyr a'r trigolion lleol. Amlygwyd creadigrwydd a doniau entrepreneuraidd y disgyblion wrth iddynt argraffu dyluniadau ar gynnyrch i'w gwerthu - yn waddol i'r prosiect, ac yn ddathliad o dreftadaeth eu milltir sgwâr.

## Sefydliad Moondance
*Gwobr:* **£200**

### YSGOL GYNRADD ARCHDDIACON JOHN LEWIS
### Pen-y-bont ar Ogwr

### *Teitl:* What connects us? (Beth sy'n ein cysylltu?)

Roedd hwn yn brosiect mentrus iawn o safbwynt ystod y pynciau a astudiwyd. Fel cam cyntaf edrychodd y disgyblion ar adeilad yr ysgol ei hun, ac roedd cestyll ymysg agweddau eraill ar bensaernïaeth. Ystyriwyd credoau a chrefyddau ynghyd â mannau addoli yn yr ardal. Ystyriodd rhai disgyblion chwedlau Cymreig, tra bu eraill yn ymchwilio'r Ail Ryfel Byd a'i effaith ar yr ardal leol.

## Sefydliad Moondance
*Gwobr:* **£200**

### YSGOL GYNRADD CEFN CRIBWR
### Pen-y-bont ar Ogwr

### *Teitl:* Our Community: Cefn Cribwr (Ein Cymuned: Cefn Cribwr)

Creodd Ysgol Gynradd Cefn Cribwr amgylchedd dysgu cynhwysol i bawb, lle gallai plant ddysgu am eu bro - Cefn Cribwr. Roedd y plant yn arbennig o falch o ddatblygiad lle roeddent yn byw a sut yr oedd yn cysylltu â chyfnodau pwysig mewn hanes, megis y ddau Ryfel Byd, cloddio am lo a datblygiadau ym myd ffermio.

## Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig
*Gwobr:* **£200**

### YSGOL GYNRADD PENPARC
### Ceredigion

### *Teitl:* Môr-ladron

Ffocws y prosiect hwn oedd ymweliad y disgyblion â thraeth Tre-saith. Roedd y prosiect hwn, yn amlwg, wedi ysbrydoli'r disgyblion fu'n cymryd rhan. Gwnaeth brwdfrydedd amlwg y disgyblion argraff ffafriol iawn. Roeddent yn ymwybodol iawn o storïau T Llew Jones ac wedi ymchwilio baneri a dillad môr ladron. Bu hynny'n gymorth iddynt ysgrifennu eu storïau eu hunain am fôr ladron. Cryfder amlwg y prosiect oedd y modd yr ymdriniai'r ysgol â Phedwar Diben y cwricwlwm newydd. Roedd ffocws clir y prosiect ar hanes a threftadaeth Cymru.

## Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig
*Gwobr:* **£200**

### YSGOL EGLWYS GATHOLIG SEINTIAU GABRIEL A RAPHAEL
### Rhondda Cynon Taf

### *Teitl:* Ein Cynefin

Teitl y prosiect hwn oedd Ein Cynefin – astudiaeth o ddiwylliant cyfoes a hanesyddol Cymru, cymuned Tonypandy, cymdeithas ac arferion Cymreig a chrefydd Cymru. Trwy'r prosiect, mae'r dysgwyr wedi dangos eu gallu i ddarganfod, ymgysylltu a gwerthuso materion hanesyddol a daearyddol. Mae'r prosiect wedi rhoi cyfle iddynt sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol, a magu hyder trwy berfformiadau cerddorol a dawns. Fe wnaethant archwilio eu cymuned a sefydlu gwell dealltwriaeth ohoni a datblygu hyder eu bod yn aelodau gwerthfawr o'u cymdeithas leol.

## Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin
*Gwobr:* **£200**

### YSGOL GYMRAEG TEILO SANT
### Sir Gaerfyrddin

### *Teitl:* Hanner can mlynedd o deulu Ysgol Teilo Sant

Wrth ddathlu 50fed pen-blwydd sefydlu Ysgol Teilo Sant yn ysgol gyfrwng Cymraeg yn Llandeilo, archwiliodd y disgyblion sut yr oedd yr ysgol wedi newid yn ystod y cyfnod hwn. Dychwelodd staff a oedd wedi ymddeol a chyn-ddisgyblion i'w holi am sut roedd pethau wedi newid. Edrychwyd yn fanwl ar nifer o agweddau megis yr ystafelloedd dosbarth a'r iard ac adnabu'r disgyblion y prif newidiadau a oedd wedi digwydd yn y cyfnod hwn. Gwnaethpwyd cacen ben-blwydd, ynghyd â murlun dosbarth a chardiau pen-blwydd i'r ysgol. Cynhyrchodd y disgyblion gân i ddathlu a chylchredwyd hi'n eang yn eu cymuned.

## Tystysgrif Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

### YSGOL GATHOLIG SANT CARLO ACUTIS BENDIGAID
### Merthyr Tudful

### *Teitl:* Hopes, Dreams and Aspirations (Gobeithion, Breuddwydion a Dyheadau)

Anogai'r cais hwn ddisgyblion i ymchwilio bywydau Cymry enwog sy'n eu hysbrydoli yn y byd heddiw. Roedd yr unigolion a ddewiswyd o feysydd amrywiol: y campau, diwylliant, cerdd a ffasiwn. Roedd hwn yn ymchwil diddorol i fywyd Cymru heddiw a'r rhai hynny sy'n creu ein hanes yn y presennol a'r gorffennol diweddar. Roedd y disgyblion yn ddigon ffodus i gael ymweliad gan un a oedd wedi ennill medal Olympaidd mewn jiwdo. Gobeithir y bydd llwyddiannau'r detholion a ddewiswyd yn ysbrydoli disgyblion i ddilyn eu breuddwydion a'u dyheadau.

## Tystysgrif Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

### YSGOL GYNRADD CRYMLYN
### Castell-nedd Port Talbot

### *Teitl:* Our Story Ein Stori Ni

Dysgodd Ysgol Gynradd Crymlyn am berthyn i Gymru trwy'r prosiect hwn. Edrychon nhw ar Gymry enwog, Abaty Nedd, rhannau pwysig o'u pentref megis Gwesty'r Tŵr a hanes hollbwysig eu hysgol. Roedd y plant i gyd yn mwynhau galw i gof hanesion o'r gorffennol am eu hysgol a'u pentref lleol.

## Tystysgrif Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

### YSGOL GYNRADD DERI
### Caerffili

### *Teitl:* **Treftadaeth Chwaraeon Deri**

Edrychodd Ysgol Gynradd Deri ar dreftadaeth chwaraeon Deri. Gwnaeth yr ysgol arolwg o'r gymuned ar y pwnc, trefnwyd taith i Stadiwm Principality, edrychwyd ar wrthrychau o gasgliad Brian Price, y chwaraewr rygbi chwedlonol dros Gymru, a'r chwaraewr rygbi rhyngwladol Will Reed, ac edrychon nhw ar eu seren chwaraeon Gymreig eu hunain, Archie Price. Yna cyflwynon nhw wasanaeth i'r rhieni am hyn. Arweiniodd un disgybl y gwaith perthnasol wrth gefn yn y clwb cinio a chrëwyd y bwrdd tystiolaeth ar gyfer y gystadleuaeth.

## Tystysgrif Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

### YSGOL GYNRADD MILLBROOK
### Casnewydd

### *Teitl:* **Dathlu Cymru**

Canolbwyntiodd y prosiect hwn ar ddathlu Cymru a phopeth Cymreig. Dysgodd disgyblion Ysgol Gynradd Millbrook am rai themâu pwysig yn hanes Cymru ac roeddent yn gyffrous i adrodd hanesion Barti Ddu y môr-leidr a Santes Dwynwen, nawdd-santes cariadon Cymru.

Welsh Heritage Schools Initiative — Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

# Enillwyr Gwobrau 2023
# Ysgolion Cynradd ac Iau – Prosiectau Dosbarthiadau Unigol a Grwpiau Blwyddyn

## Sefydliad Moondance

*Gwobr:* **£800**

**YSGOL GYNRADD GYMRAEG TIRDEUNAW**
**Abertawe**

*Teitl:* **Yr Ardal Leol**

Mae'r prosiect hwn yn fodel o ymarfer rhagorol. Mae'n cynnwys astudiaethau eithriadol o: bywyd ac amseroedd bachgen a oedd yn byw yn yr ardal yn ystod Oes Fictoria; hanes pwll glo lleol a'i gapel tanddaearol(!); y rheilffordd a gludai lo i ddociau Abertawe; Daniel James cyfansoddwr Calon Lân; Ffair Llangyfelach a hanes hen gae rasio Pen-lan. Mae'r disgyblion wedi dehongli ystod eang o ddeunyddiau gwreiddiol, gan gynnwys llyfrau a dogfennau, delweddau, a data'r cyfrifiad. Buon nhw'n cyfweld ymwelwyr yn fedrus. Roedd eu sgiliau ymholi a chyflwyno yn eithriadol. Roedden nhw'n cyflwyno eu gwaith mewn ffyrdd hynod o wreiddiol. Mae'r gwaith hwn yn wych ac yn adlewyrchu gwybodaeth a balchder mawr disgyblion yn eu cymuned, eu diwylliant a'u treftadaeth.

## Gwobr Goffa Richard Price

*Gwobr:* **£800**

**YSGOL GYNRADD TYNYRHEOL**
**Pen-y-bont ar Ogwr**

*Teitl:* **The Most Original Thinker Born in Wales? An Inquiry into Dr. Richard Price (Y Meddyliwr mwyaf gwreiddiol a aned yng Nghymru? Ymholiad i Dr Richard Price)**

Roedd yr ymchwil hwn i fywyd Dr Richard Price yn eithriadol. Cafodd ei ysgogi gan Gymdeithas Treftadaeth Cwm Garw a darparwyd gwybodaeth ar gyfer y plant gan aelodau'r gymdeithas a Dr Huw Williams o Brifysgol Caerdydd. Rhaid canmol yr athrawon am sicrhau bod pwnc anodd i ddisgyblion CA2 yn cael ei wneud yn hygyrch iddynt. Roedd iddo berthnasedd lleol a oedd yn ffactor symbylol ac ymgymerodd y disgyblion ag ystod eang o brofiadau trawsgwricwlaidd, gan gynnwys dyfeisio cymuned 'berffaith' yn seiliedig ar syniadau Dr Price am ryddid. Cafodd arddangosfa'r disgyblion ei harddangos yn y Senedd ac yn y ganolfan gymunedol leol, lle gwnaeth cyfleoedd y disgyblion i gyflwyno a thrafod eu gwaith gryn argraff ar y rhai a oedd yn bresennol.

## Sefydliad Hodge
*Gwobr:* **£650**

### YSGOL GYMRAEG CAERFFILI
### Caerffili

*Teitl:* **Ivan Raymond Trafford**

Roedd y prosiect cyffrous ac ysbrydoledig hwn yn canolbwyntio ar fywyd a hanes Ivan Raymond Trafford a anwyd yn 1921 yng Nghanada ac a fagwyd ar fferm yn New Brunswick. Fel llawer o ddynion o'i oedran ef yng Nghanada, ymunodd ag Awyrlu Brenhinol Canada yn 1940. Anfonwyd e i wersyll hyfforddi yn Llandŵ, Bro Morgannwg. Ond at 7fed Tachwedd 1941, bu farw mewn damwain ar gae Coed Cae, Cefncarnau, Mynydd Caerffili. Aethpwyd â'i gorff i Ysbyty'r Glowyr Caerffili. Yn drist, ni oroesodd y ddamwain. Prosiect meddylgar ac amrywiol. Dangosodd y disgyblion empathi a dealltwriaeth real o effeithiau ehangach marwolaeth Ivan a'i waddol i'w deulu ac i'r gymuned ehangach.

## Sefydliad Moondance
*Gwobr:* **£650**

### YSGOL GYNRADD GARNDOLBENMAEN
### Gwynedd

*Teitl:* **Fi: Ddoe a Heddiw**

Bu disgyblion Ysgol Garndolbenmaen yn cymharu bywyd Oes Fictoria â heddiw, gan ddefnyddio hanes eu hysgol a'u cymuned fel bachyn. Wedi edrych ar hen ffotograffau o'r ysgol, buont yn cydweithio â'r gymuned i gasglu mwy o hen ffotograffau a llyfrau am hanes yr ardal, gan ddatblygu eu dealltwriaeth o fywyd ysgol, bwyd, teganau, elusennau a thrafnidiaeth Oes Fictoria, yn ogystal â dysgu am hen enwau ffermydd a chaeau eu hardal. Cwmpaswyd yr holl waith mewn ffilm fer a sgriptiwyd ac a gyfarwyddwyd gan y disgyblion, gydag actio, nifer o ffeithiau difyr, ac animeiddiadau i ddangos bywyd Garndolbenmaen ers talwm. Daeth y prosiect yma â'r ysgol a'r gymuned yn agosach, ac mae nifer o gynlluniau ar droed i barhau â'r gwaith cyffrous yma.

## Sefydliad Hodge

*Gwobr:* **£650**

### YSGOL GYNRADD RHWS
### Bro Morgannwg

### *Teitl:* Tales from Wales (Chwedlau o Gymru)

Trwy'r thema 'Gwleidyddiaeth a Phrotest' archwiliodd dysgwyr Blwyddyn 5 drychineb Aberfan, Helyntion Beca, Terfysgoedd Hiliol y Barri 1919 a Swffragetiaid yng Nghymru a streiciau athrawon a nyrsys. Cofnodon nhw eu prosesau meddwl ac ymholi, ymarferon nhw eu sgiliau llythrennedd e.e. trwy ysgrifennu llythyron am y tollbyrth a gwnaethon nhw ffilm gyda gwneuthurydd ffilm o fudiad Bigfoot Arts Education Cymru. Cymerodd pob disgybl ran trwy ysgrifennu sgriptiau a golygu, gwneud gwisgoedd a chelfi, cyfarwyddo ffilm, cyflwyno a golygu.

Synnwyd y dysgwyr fod cymaint o brotest hanesyddol a chyfredol yn rhan o'u treftadaeth hwy. Daethant i gasgliadau am gwestiynau mawr fel pwysigrwydd protest ac a ydy gweithredu'n uniongyrchol yn cyflawni cymaint o newid â ffurfiau anuniongyrchol o brotest.

## Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

*Gwobr:* **£550**

### YSGOL GYNRADD CHWILOG
### Gwynedd

### *Teitl:* Ysgol Chwilog Oes Fictoria a Heddiw

Defnyddiodd y prosiect diddorol a hwyliog hwn hanes Ysgol Chwilog fel canolbwynt i gymharu bywyd Oes Fictoria â heddiw. Ar ôl edrych ar hen luniau o'u hysgol, bu'r plant yn ymchwilio i fywyd y cyfnod, gan ddefnyddio technoleg ac ymweliad gan y gwasanaeth archifdy i ddysgu am wrthrychau o'r cyfnod. Yr uchafbwynt oedd diwrnod ymdrochol pan ddaeth pawb i'r ysgol mewn gwisg Fictoraidd a threulio'r diwrnod mewn gwersi traddodiadol, cyn defnyddio'r profiad i ysbrydoli nifer o dasgau creadigol. Roedd gan y disgyblion falchder amlwg yn eu gwaith ac roeddent yn esbonio'r gwahaniaethau rhwng Oes Fictoria a heddiw yn hyderus a huawdl.

## Sefydliad Moondance
*Gwobr:* **£550**

### YSGOL GYNRADD CWMLAI
### Rhondda Cynon Taf

### *Teitl:* HIStory or HERstory? Mining for the secrets of our past.

### (Ei hanes ef neu ei hanes hi? Cloddio am gyfrinachau'n gorffennol)

Datblygodd cwestiynau ar ôl i ddysgwyr archwilio gwrthrychau yn ymwneud â'r diwydiant glofaol. Daeth un cwestiwn yn brif thema 'Ai ei hanes EF neu ei hanes HI oedd hwn' oherwydd diffyg cynrychiolaeth o fenywod yn yr hanes hwn. Y dysgwyr arweiniodd gyfeiriad yr ymchwil hwn a gwreiddiwyd ef yn eu bro eu hunain ac yn hanes teulu pob un plentyn. Roedd 'Ein stori ni' yn adran lle'r oedd dysgwyr yn adnabod aelodau teuluol yr oeddent eisiau eu darganfod a chofnodi eu hanes. Roedd yr ystod o gyfeiriadau a'r cynnyrch yn adlewyrchu'r angerdd a'r brwdfrydedd a gynhyrchwyd gan y prosiect hwn.

## Sefydliad Hodge
*Gwobr:* **£500**

### YSGOL GOLWG Y CWM
### Powys

### *Teitl:* Slavery and the Ynyscedwyn Ironworks
### (Caethwasiaeth a Gweithfeydd Haearn Ynyscedwyn)

Roedd hwn yn brosiect wedi ei ymchwilio'n ofalus a'i gyflwyno'n dda am y cyswllt, pwysig ond prin yr wybodaeth amdano cyn hyn, rhwng Gweithfeydd Haearn Ynyscedwyn, Ystradgynlais â'r masnachwr caethweision, Joseph Marryat, a fuddsoddodd ei arian iawndal yn y gweithfeydd. Roedd y disgyblion wedi astudio ystod eang o ffynonellau a'u harchwilio'n drwyadl. Felly roeddent yn gallu trafod eu gwaith gyda hyder a chyflwyno'r achos yn erbyn caethwasiaeth yn effeithiol. Nodon nhw'r cysylltiadau rhwng y diwydiant glo, y gweithfeydd haearn a phlanigfeydd caethweision yn India'r Gorllewin. Archwiliwyd hyn trwy ysgrifennu creadigol, cyfrifiadau mathemategol, celf, a cherdd a chrynhowyd y cyfan mewn fideo cynhwysfawr a baratowyd gan y dysgwyr eu hunain.

## SWIEET Ymddiriedolaeth Addysgol Peirianwyr De Cymru:
Gwobr William Menelaus am y prosiect gorau am dreftadaeth ddiwydiannol

*Gwobr:* **£500**

### YSGOL GYNRADD FFALDAU
### Pen-y-bont ar Ogwr

### *Teitl:* Industry in Wales, Past, Present and Future: Power of Wales (Diwydiant yng Nghymru, y gorffennol, y presennol a'r dyfodol: Pŵer Cymru)

Ailadroddodd disgyblion Ysgol Gynradd Ffaldau stori diwydiant yng Nghymru ac ym Mhontycymer yn greadigol trwy gyfrwng animeiddiad stop motion. Creodd plant eu setiau a'u gwaith celf eu hunain i greu ffilm bwysig iawn am bŵer a Chymru. Roedd y disgyblion yn hynod falch o'u treftadaeth, a hyn ysbrydolodd eu siwrnai i ddysgu sut mae Cymru yn pweru'r byd nawr, ac wedi gwneud yn y gorffennol. Edrychwyd ar Lên Gwerin hefyd gyda stori'r Bwbach i gael dealltwriaeth lawn o beth yw bod yn Gymry a dysgu am arferion a diwylliant.

## Casgliad y Werin Cymru: Rhagoriaeth Ddigidol
*Gwobr:* **£500**

### YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL TROED Y RHIW
### Merthyr Tudful

### *Teitl:* Merthyr's Hidden Histories (Hanesion Cudd Merthyr)

Roedd ffocws y prosiect hwn ar ymchwilio bywyd eu cymuned hwy yn y cymoedd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Aeth y plant ati i greu App yn seiliedig ar wybodaeth i'w gyrchu trwy fap rhyngweithiol o'r ardal. I ddechrau roedd yn rhaid i'r disgyblion benderfynu ar leoliadau penodol i'w hastudio a chasglwyd deunydd o lawer iawn o ffynonellau. Defnyddiwyd cyfesurynnau ar Fapiau Live Google i leoli'r lleoliadau hyn yn fanwl a chreodd y plant gymeriadau digidol i helpu defnyddio'r App. Defnyddiwyd amrywiaeth eang o dechnegau digidol a dyfeisiau newydd yn fedrus gan y disgyblion i greu ffynhonnell o wybodaeth hawdd iawn ei chyrchu. Gwnaethpwyd cyflwyniad dosbarth cynhwysfawr i ddweud wrth rieni ac eraill am arwyddocâd eu hymdrechion.

**SWIEET Ymddiriedolaeth Addysgol Peirianwyr De Cymru:**
Gwobr Gwyn Griffiths am y prosiect gorau
am 'faterion gwyrdd'
*Gwobr:* **£500**

## YSGOL CROSS HANDS
## Sir Gaerfyrddin

### *Teitl:* Y Cymry a'u Cymdogion

Roedd nifer o themâu amrywiol yn rhedeg drwy'r prosiect hwn, o bensaernïaeth, cynaladwyedd a phrotest i blentyndod yn yr 60au. Cafodd y disgyblion brofiadau dysgu cyfoethog, yn cynnwys gweithio gyda'r gymuned hŷn mewn partneriaeth bwerus a thrafod cynaladwyedd yn siambr y Cyngor gyda gwleidyddion. Arddangosodd y disgyblion ystod eang o sgiliau ac roeddent yn gallu trafod eu gwaith gyda hyder a balchder. Gallai disgyblion gymharu a throsglwyddo gwybodaeth yn drawiadol, megis y gwahaniaeth rhwng protestio lleol Merched Beca ac achub pentref Llangyndeyrn rhag cael ei foddi.

**Sefydliad Moondance**
*Gwobr:* **£450**

## YSGOL GYNRADD CWMFELINFACH
## Caerffili

### *Teitl:* Tip and Run (Tipio a Rhedeg)

Creodd disgyblion Ysgol Gynradd Cwmfelinfach animeiddiad stop motion yn seiliedig ar ailadrodd stori drasig gollwng bom yn ystod yr Ail Ryfel Byd ar eu pentref. Llwyddwyd i gael llawer iawn o wybodaeth o'r gymuned trwy gyfrwng Gweplyfr.

Roedd pob un o'r disgyblion wedi cyfrannu at gynhyrchu'r animeiddiad, gan greu golygfeydd, gwneud effeithiau sain a dweud y stori. Roeddent yn awyddus i ddweud y stori ac i helpu sicrhau na fyddai digwyddiadau'r noson honno yn cael eu hanghofio gan genedlaethau'r dyfodol ac y byddai'r pum dioddefwr a laddwyd yn cael eu cofio am byth.

## Sefydliad Moondance
*Gwobr:* **£450**

### YSGOL GYMRAEG DYFFRYN Y GLOWYR
### Powys

*Teitl:* **O Wlân i Siwgr**

Prosiect gwreiddiol ac arloesol yn olrhain y Fasnach Drionglog yn hanes caethwasiaeth. Y man cychwyn oedd gwneud murluniau o ffelt i ddarlunio creu brethyn o'r cnu i'r blancedi, a gâi eu cyfnewid am gaethion yn Affrica. Trwy gelf, daearyddiaeth, TG a llawer o waith ysgrifenedig yn Gymraeg a Saesneg, roedd y dysgwyr wedi datblygu'r prosiect i'w lawn botensial. Roeddent yn trafod a dadansoddi cymhlethdodau'r pwnc sensitif hwn yn ddeallus a chytbwys. Daeth dwy gyn-ddisgybl a fu'n ymwneud â'r prosiect y llynedd yn ôl i'r ysgol i gyflwyno'r gwaith ac eglurodd disgyblion cyfredol sut y gellid datblygu'r thema ymhellach.

## Sefydliad Moondance
*Gwobr:* **£450**

### YSGOL GYNRADD GELLI
### Rhondda Cynon Taf

*Teitl:* **'Gelli in the Past' Is Coal a treasure or threat? ('Gelli yn y Gorffennol' Ydy glo yn drysor neu'n fygythiad?)**

Y pwll glo a arferai fod ym mhentref Gelli oedd man cychwyn y prosiect hwn. Penderfynodd y dysgwyr ble y byddai eu hymchwil yn eu harwain ac o'r herwydd astudiwyd ystod eang o bynciau megis trychinebau glofaol, protestiadau, bywyd bob dydd ac effaith ar yr amgylchedd. Datblygwyd ystod o sgiliau gan gynnwys sgiliau ymholi a rhai ehangach megis rhai digidol, creadigrwydd a chyflwyno. Roedd balchder, mwynhad, a gwerth cydweithio yn amlwg pan rannodd y dysgwyr y ffilm a grëwyd fel rhan olaf y prosiect hwn.

## Sefydliad Moondance
*Gwobr:* **£450**

### YSGOL GYNRADD YR EGLWYS YNG NGHYMRU DEWI SANT
### Caerdydd

*Teitl:* **Welsh Love Spoons (Llwyau Caru Cymreig)**

Roedd disgyblion wedi treulio llawer iawn o'u hamser yn trochi yn hanes Cymru a'i llên gwerin, wrth edrych ar y thema 'Dwnsiynau a Dreigiau'. Treulion nhw amser yn dathlu Diwrnod Santes Dwynwen ac yn archwilio hanes y llwy garu Gymreig. Roedd disgyblion yn gallu nodi pwysigrwydd y llwy garu yn niwylliant Cymru ac egluro dyluniadau eu llwyau eu hunain. Roeddent wedi gallu dewis symbolau addas ar gyfer eu llwyau fel bod pob llwy yn adrodd stori wahanol. Trwy weithio gydag aelodau o'r gymuned gwelon nhw lwyau oedd wedi eu cyfnewid yn y gorffennol ac egluron nhw i rieni / gofalwyr a'r gymuned ehangach arwyddocâd y llwy garu Gymreig yn hanes Cymru.

**Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig**
*Gwobr:* **£350**

## YSGOL GYNRADD GATHOLIG Y BENDIGAID WILLIAM DAVIES

## BLESSED WILLIAM DAVIES CATHOLIC PRIMARY SCHOOL Conwy

### *Teitl:* Victorian Life in Llandudno (Bywyd yn oes Victoria yn Llandudno)

Roedd y prosiect hwn yn cynnwys yr ysgol gyfan, gyda dosbarthiadau gwahanol yn datblygu eu diddordebau a'u hagweddau eu hunain i'r prosiect. Cyfathrebwyd hynny yn frwdfrydig gan arddangos meysydd o wybodaeth mewn dyfnder i'r beirniaid a'r dosbarthiadau eraill.

Roedd y ffocws yn bur gynhwysfawr ac yn cynnwys pensaernïaeth, twristiaeth, bwyd a'r Amgueddfa leol, grwpiau lleol a chlybiau oedd â diddordeb. Cwmpaswyd llawer o bynciau. Doedd dim ffilm orffenedig, felly ni allwn wneud sylw am hyn.

Roedd y gwaith wedi ei arddangos yn y cyntedd ac roedd y disgyblion yn gallu ein harwain trwy agweddau amrywiol y prosiect gyda brwdfrydedd mawr a gwybodaeth. Roedd Bechgyn y Mulod yn ffefryn arbennig.

**Sefydliad Hodge**
*Gwobr:* **£350**

## YSGOL GYNRADD COEDYLAN Rhondda Cynon Taf

### *Teitl:* When Coal was King (Pan oedd Glo yn Frenin)

Defnyddiodd y prosiect hwn hanes cloddio am lo yn fan cychwyn, a throchodd y dysgwyr yn eu bro gan gymharu bywydau yn y gorffennol â'u bywydau hwy heddiw. Archwilion nhw sut yr arweiniodd twf y diwydiant at dwf Pontypridd, a gwnaethant lawer o ddefnydd o'u hardal leol, gan ymweld ag amgueddfeydd, llyfrgelloedd, canolfannau treftadaeth a thirluniau lleol ar gyfer eu hymchwil. Roedd y Celfyddydau Mynegiannol yn rhan fawr o'r prosiect hwn ac roedd yn cynnwys gwneud pypedau, hunanbortreadau, gwneud mapiau, ysgrifennu caneuon, actio, barddoniaeth a drama.

## Cyfeillion Amgueddfa Sir Gaerfyrddin
*Gwobr:* **£250**
## Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig
*Gwobr:* **£100**

### YSGOL GYNRADD DREFACH
### Sir Gaerfyrddin

*Teitl:* **Protest**

Cynhyrchodd y prosiect hwn gan ddosbarth oedran-cymysg o 14 disgybl yn Ysgol Gynradd Drefach brosiect diddorol a chreadigol am brotest yng Nghymru, yn enwedig Helyntion Beca. Roedd hwn yn brosiect gwreiddiol yn cwmpasu drama a'r celfyddydau gweledol. Dangoswyd fideo o ddrama brotest, lle'r oedd y disgyblion wedi ysgrifennu eu sloganau a'u baneri eu hunain. Roedd y disgyblion yn amlwg yn deall pam fod protest yn codi a pham fod Cymry wedi allfudo i Batagonia. Buon nhw'n ymchwilio materion cyfoes hefyd ac roedden nhw wedi ffurfio barnau clir am gyfiawnder cymdeithasol.

## Sefydliad Hodge
*Gwobr:* **£350**

### YSGOL GYNRADD FOCHRIW
### Merthyr Tudful

*Teitl:* **Patagonia**

Arweiniodd ffotograff o Ysgol Gymraeg Yr Andes gyda baner yr Ariannin yn cyhwfan arni i ddisgyblion ofyn ac ymchwilio ystod o gwestiynau i holi pam fod gwladfa Gymraeg ei hiaith ym Mhatagonia a hanesion y bobl a adawodd Gymru yn 1865. Cynhyrchodd y disgyblion ystod dda o waith trawsgwricwlaidd gan gynnwys cân am Michael D. Jones. Dangoson nhw ddiddordeb clodwiw ym Mhatagonia heddiw a'r cysylltiadau parhaol rhyngddi a Chymru.

## Llyfrgell Genedlaethol Cymru
*Gwobr:* **£300**

### YSGOL PONTRHYDFENDIGAID
### Ceredigion

*Teitl:* **Cyrraedd y Copa**

Cyfuniad a gafwyd yn y prosiect yma o gywain gwybodaeth am ardal yng nghanolbarth Cymru - Yr Elennydd, ynghyd â chyflawni her gorfforol - cyrraedd copa Pumlumon, yr uchaf o gopaon y rhanbarth. Y bwriad oedd rhoi cyfle i'r disgyblion ddysgu am, ac ymgyfarwyddo â, nodweddion amrywiol eu cynefin. Roedd perchnogaeth gyflawn y plant o'r prosiect yn gwbl amlwg, ac ymroddiad a mwynhad pob disgybl i'w gweld yn glir wrth iddynt ddwyn i gof ag awdurdod y ffeithiau a ddysgwyd.

## Cymdeithas Hanes Morgannwg: Gwobr Goffa Patricia Moore

*Gwobr:* **£250**

### YSGOL BRO TAWE
### Powys

*Teitl:* **Croeso**

Roedd 'Croeso' yn brosiect gwahanol, heriol a phwerus iawn a ddeilliodd o pan ymunodd disgybl o Syria â'r ysgol. Roedd y disgyblion yn awyddus i ddeall ei dreftadaeth a'i ddiwylliant ef ac i'w gyflwyno ef a'i deulu i dreftadaeth a diwylliant Ystradgynlais trwy gyfrwng taflen groeso, llythyron a baneri. Roedd y prosiect yn golygu deall y trawmâu a brofasai ffoaduriaid o wledydd wedi'u chwalu gan ryfel a'u helpu i ymdopi â nhw. Roedd y pwyslais ar ddeall, gwerthfawrogi a chydymdeimlo.

## Sefydliad Moondance

*Gwobr:* **£200**

### YSGOL GYNRADD BRYNMENYN
### Pen-y-bont ar Ogwr

*Teitl:* **Is our local hero, Sarah Jane Howell, remembered? (Ydy ein harwres leol, Sarah Jane Howell, yn cael ei chofio?)**

Roedd hwn yn brosiect diddorol a oedd yn hynod berthnasol i'r ysgol a'i hardal oherwydd roedd Sarah Jane Howell wedi aberthu ei hoes yn dysgu yn yr ysgol ac mae'r heol lle saif yr ysgol wedi ei henwi er cof amdani. Mae'r plant wedi penderfynu sicrhau parhad ei gwaddol ac yn bwriadu, nid yn unig i rannu ei stori, ond i greu gardd goffa ar dir yr ysgol yn deyrnged iddi. Cawsant eu brawychu i ddarganfod bod y gofeb sy'n bodoli iddi wedi ei fandaleiddio.

## Sefydliad Moondance

*Gwobr:* **£200**

### YSGOL GYNRADD CRYNALLT
### Castell-nedd Port Talbot

*Teitl:* **Cynefin**

Ceisiai'r prosiect hwn annog dysgwyr Blwyddyn 4 i ymchwilio i'w cynefin. Gwnaethpwyd hyn trwy beth ymchwil hanesyddol i ystyr enwau lleoedd lleol, mapiau a'r cyfrifiad i ddysgu am eu treftadaeth leol. Roeddent wedi dysgu caneuon Cymraeg, wedi cynhyrchu modelau ac arddangos sgiliau llythrennedd sylweddol. Roedd yr ymchwil wedi arwain y disgyblion i ymchwilio'r angen am well cyfleusterau chwarae a rhai mwy cynhwysol yn lleol, i adlewyrchu hawl pob plentyn i chwarae ac ymlacio.

**Sefydliad Hodge**
*Gwobr:* **£200**

## YSGOL Y LAWNT
## Caerffili

### *Teitl:* Gwaith! Gwaith! Plant yr Oes Fictoria

Wedi ei ysbrydoli gan nofel Berlie Doherty 'Street Child' a phrofiadau'r cymeriad Jim Jarvis, ymchwiliodd y prosiect hwn yn ddyfnach i sut roedd bywyd i blant yn Oes Victoria trwy brofiadau creadigol a llenyddol, chwarae rôl ac ymchwil hanesyddol i ddata Wyrcws Merthyr Tudful o gyfrifiad 1881.

**Sefydliad Hodge**
*Gwobr:* **£200**

## FFEDERALIAETH YSGOL PENRHYN-COCH AC YSGOL PENLLWYN
## Ceredigion

### *Teitl:* Sut mae fy nghynefin yn fy ysbrydoli?

Adroddodd y disgyblion â balchder pa mor gyfoethog oedd hanes eu milltir sgwâr o ran hanes y diwydiant mwyngloddio yng Nghymru. Nodwyd bod y profiadau a gafwyd wrth ymweld â Llywernog, Cwmerfyn, Cwmsymlog a Chwmystwyth wedi cynnau eu diddordeb yn nhreftadaeth eu cynefin, a gwelwyd tystiolaeth o'u brwdfrydedd yn y gwaith llaw a'r ddawns greadigol a ysbrydolwyd gan y prosiect.

**Sefydliad Hodge**
*Gwobr:* **£200**

## YSGOL GYMUNEDOL TAL-Y-BONT
## Ceredigion

### *Teitl:* Hanes faciwîs yn yr Ail Ryfel Byd yn ardal Tal-y-bont

Un o brif allbynnau'r prosiect oedd datblygu sgiliau golygu sain a gafodd eu mireinio drwy addasu cyfweliad gyda faciwî a ddaeth i'r ardal yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Roedd y dysgwyr yn amlwg yn uniaethu gyda'r faciwîs ac yn gallu cymharu hyn â sefyllfa fodern y ffoaduriaid o Wcráin. Yn ystod y prosiect bu'r ysgol yn cyd-weithio gyda Phrifysgol Aberystwyth ac yn cyflwyno'r gwaith i Archifdy Ceredigion.

## Tystysgrif Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

**YSGOL GYNRADD LLECHRYD**
**Ceredigion**

*Teitl:* **Ai trwy chwyldro mae llwyddo?**

Dechreuodd y prosiect gan ffocysu ar gyfraniad Aneurin Bevan at sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Roedd y cysyniad fod triniaeth iechyd rhad ac am ddim yn creu cymdeithas fwy cyfartal yn greiddiol i'r prosiect. Esblygodd y prosiect i edrych ar hawliau yn gyffredinol yn rhyngwladol ac yn genedlaethol. Aeth y dysgwyr ar daith i'r Senedd i ddysgu am waith gwleidyddion yn gwella hawliau ac i ddysgu am ein hawliau yng Nghymru.

## Tystysgrif Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

**YSGOL GYNRADD GATHOLIG PADARN SANT**
**Ceredigion**

*Teitl:* **Rhyfeddodau Cymru**

Datblygodd y prosiect trawsgwricwlaidd hwn wybodaeth y dysgwyr am eu hardal leol, Cymru a'i rhyfeddodau. Dangoson nhw sgiliau cydweithio rhagorol wrth ymchwilio; hyrwyddwyd eu hymholiad trwy ymweld â safleoedd lleol gan gynnwys Amgueddfa Ceredigion a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Cynhyrchwyd gwaith creadigol da iawn, gan gynnwys dynwared artistiaid Cymreig a mwynhaon nhw rannu casgliadau eu gwaith gyda chymuned yr ysgol.

## Tystysgrif Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

**YSGOL PENALLTAU**
**Caerffili**

*Teitl:* **Olion**

Yn y prosiect hwn, cyfansoddodd y plant gân a chreon nhw animeiddiad wedi ei ysbrydoli gan olion ac adeiladau hanesyddol eu hardal leol gyda help arlunydd a cherddor proffesiynol.

**Tystysgrif Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig**

## YSGOL GYNRADD TREFORYS
### Abertawe

### *Teitl:* 150 mlynedd Capel y Tabernacl, Treforys

Astudiodd y disgyblion elfennau o hanes Treforys. Cymerasant ddiddordeb uniongyrchol yng Nghapel Tabernacl. Fe aethon nhw ati i ymchwilio hanes yr adeilad a chanfod bod y capel yn dathlu 150 o flynyddoedd. Mwynhaodd y disgyblion eu gwaith a chymryd rhan mewn diwrnod tebyg i Oes Fictoria yn y dref, gan arddangos eu gwaith.

# Enillwyr Gwobrau 2023
# **Ysgolion Uwchradd**

**Sefydliad Moondance**
*Gwobr:* **£800**

## YSGOL BRO DINEFWR
### Sir Gaerfyrddin

*Teitl:* **Ein Cynefin**

Dyma brosiect oedd yn canolbwyntio ar 'Ein Cynefin' a chryfder amlwg y gwaith yma oedd bod pob disgybl ym mlwyddyn 7 yn rhan ohono a'i fod yn para trwy'r flwyddyn. Gwnaeth y disgyblion ymchwil helaeth ar gyfer gwneud cyflwyniadau unigol ar eu cynefin gan gael mynediad i ystod eang o ffynonellau, ac o ganlyniad casglwyd llawer iawn o wybodaeth arweiniodd at ystod o ddehongliadau. Gwnaethant ddefnydd o rychwant addas o sgiliau a gwybodaeth o feysydd Hanes, Daearyddiaeth, Busnes ac Addysg Grefyddol. Mae'n amlwg fod y disgyblion wedi cael llawer o fudd o wneud y prosiect hwn oherwydd ei fod yn dod â hanes a threftadaeth leol yn fyw iddynt.

Mae'r prosiect wedi dal dychymyg y disgyblion ac yn amlwg wedi codi awydd ynddynt i archwilio eu treftadaeth ymhellach. Ardderchog Bro Dinefwr.

**Sefydliad Moondance**
*Gwobr:* **£650**

## YSGOL GYFUN GWYNLLYW
### Gwent

*Teitl:* **Cynefin**

Clwb hanes yr ysgol a ymgymrodd â'r prosiect hwn. Daeth y disgyblion yn fwyfwy ymwybodol nad oedden nhw'n gwybod digon am eu cynefin eu hunain. Mae dalgylch eang gan yr ysgol, felly penderfynon nhw ganolbwyntio ar yr ardal o gwmpas yr ysgol ei hun.

Sylwon nhw nad oedd cofeb ryfel gan yr ysgol, oherwydd iddi gael ei sefydlu'n gymharol ddiweddar, ac mae'n wahanol i lawer o ysgolion yr ardal yn hynny o beth. Gan eu bod yn astudio'r Rhyfel Byd Cyntaf, penderfynon nhw gynllunio a gwneud cofeb i'w harddangos yn yr ysgol, ac un a fyddai, tra'n anrhydeddu'r aelodau hynny o'r gymuned a wasanaethodd fel milwyr ac fel staff meddygol, hefyd yn galw am geisio datrys pob anghydfod trwy ddulliau heddychlon.

## Sefydliad Moondance
*Gwobr:* **£650**

### YSGOL GYFUN PENCOED
### Pen-y-bont ar Ogwr

*Teitl:* **Celebrating 50 years (Dathlu 50 mlynedd)**

Roedd y prosiect hwn yn cynnwys ymchwiliad eang ei rychwant o ddechreuadau a datblygiad Ysgol Pencoed. Ymchwiliodd dysgwyr ar eu pennau eu hunain a chyda'i gilydd ystod eang o ffynonellau cynradd ac eilaidd a sefydlwyd llinell amser ragorol yn manylu ar yr ardal leol gynnar, addysg gynnar a'r ysgol trwy'r degawdau. Roedd gwaith rhagorol ar y cyd ac yn annibynnol a brwdfrydedd mawr a dangosodd y dysgwyr gryn fenter. Roedd y dysgwyr yn hyderus ac yn awyddus i rannu eu canfyddiadau. Yn ogystal â chreu pwerbwynt yn manylu ar hanes y fro a'r ysgol drwy'r degawdau a hynny yn cynnwys toriadau papur newydd, ffotograffau, atgofion cyn-ddisgyblion a staff, mae'r dysgwyr yn llunio Alumni Ysgol a Mur o Enwogion yn y Dderbynfa i ysbrydoli eraill. Bydd y gwaith yn diweddu ym mis Gorffennaf gyda dathliad hanner can mlwyddiant i'r ysgol a'r gymuned ehangach.

## Archif Menywod Cymru
*Gwobr:* **£300**

## Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig
*Gwobr:* **£250**

### YSGOL GYFUN BRO EDERN
### Caerdydd

*Teitl:* **Hanes Tywyll Caerdydd**

Ymchwiliodd y disgyblion i hanes trosedd a chosb yn ardal Caerdydd. Ystyrion nhw'r newidiadau a fu yn natur troseddau a'u cosbau dros y mileniwm diwethaf, gan ffocysu'n arbennig ar y ganrif a hanner diwethaf ac ar brofiadau menywod. Strwythurwyd y gwaith o gwmpas pum cwestiwn allweddol ar y newid a fu yn natur trosedd yn yr ardal, yn ei gosbau a'r rhesymau am hyn. Gwnaeth y disgyblion ddefnydd da o is-gwestiynau gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth. Gweithion nhw'n annibynnol ac ar y cyd, gan gwrdd â nifer o amcanion y cwricwlwm newydd.

**Sefydliad Moondance**
*Gwobr:* **£550**

## YSGOL BRO PEDR
## Ceredigion

### *Teitl:* Murlun Ceredigion

Ysbrydolwyd a chrëwyd 'Murlun Ceredigion' gan y Cwricwlwm i Gymru a'r angen i ddatblygu addysg mwy cyfannol. Roedd y prosiect hwn yn gyfle gwych i Adrannau'r Dyniaethau a'r Celfyddydau Mynegiannol gydweithio ar brosiect hanes lleol. Bu disgyblion Blwyddyn 10 yn cydweithio â disgyblion blwyddyn 7 i greu'r murlun. Roedd brwdfrydedd a dealltwriaeth y disgyblion yn amlwg trwy'r disgrifiad byw o'r holl adeiladau yn y murlun. Bu'r disgyblion yn gweithio'n agos iawn gydag artist lleol i greu'r murlun trawiadol a bydd yr holl waith i'w weld yn fuan ar eu gwefan. Enillodd y disgyblion hyder, gwybodaeth a mewnwelediad newydd i'w cymuned leol.

**Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig**
*Gwobr:* **£300**
**Gwobr Yr Arglwydd Brooke:**
*Gwobr:* **£250**
**Costau Teithio tuag at Ymweliad â Thŷ'r Arglwyddi**

## YSGOL MARTIN SANT
## Caerffili

### *Teitl:* Soldiers of our School (Milwyr o'n Hysgol Ni)

Gweithiodd y dysgwyr yn dda gyda'i gilydd ac yn annibynnol i ddilyn llwybrau ymholi diddorol ar gyfer y prosiect hwn. Gyda chryn frwdfrydedd darganfuon nhw'r rhai hynny fu'n rhan o Reilffordd 'Angau' Byrma ac arweiniodd hyn ar ymchwil pellach. Sefydlon nhw gronfa ddata eang yn nodi ble bu pob dyn yn gwasanaethu, beth ddigwyddodd, lle claddwyd ef, a choffeir un ohonynt bob diwrnod Cofio gan yr ysgol yn y fynwent leol. Dangosodd y dysgwyr barodrwydd a gallu i gwestiynu eu ffynonellau i sefydlu ffeithiau. Dangoson nhw bod ganddyn nhw sgiliau i ddatrys problemau a darganfod atebion. Maent wedi creu Gwefan ardderchog gan ddefnyddio sgiliau artistig i gynrychioli eu gwybodaeth. Byddant yn rhannu hyn o fewn yr ysgol a chyda'r gymuned ehangach a gwelant y prosiect fel man cychwyn.

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
*Gwobr:* **£300**
**Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig**
*Gwobr:* **£50**

## YSGOL MAES Y GWENDRAETH
## Sir Gaerfyrddin

### *Teitl:* Pyllau Glo Cwm Gwendraeth

Dyluniwyd gwefan atyniadol 'Pyllau Glo Cwm Gwendraeth', a heb os mae'r prosiect wedi ysbrydoli'r dysgwyr i archwilio eu treftadaeth ymhellach. Rhoddwyd lle canolog i egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru a braf oedd eu gweld yn trafod y pedwar diben yn hyderus ac yn naturiol. Nid yw'r wefan wedi'i chyhoeddi eto ond mae'n syniad arbennig y bydd modd i ddisgyblion eraill ei efelychu. Dyna yw'r bwriad gan ei fod yn cyd-fynd yn berffaith â thema gyntaf cwricwlwm Dyniaethau Blwyddyn 7, sef 'Perthyn'.

**Sefydliad Moondance**
*Gwobr:* **£350**

## YSGOL UWCHRADD PEN-Y-DRE
## Merthyr Tudful

### *Teitl:* Celebrating Our Growth Arts Project (Dathlu Ein Prosiect Growth Art)

Mae'r prosiect cymunedol rhyngweithiol trawiadol hwn a wnaethpwyd y tu allan i'r dosbarth wedi dwyn profiadau a lleisiau dilys y gymuned i mewn i'r ysgol ac mae eisoes wedi dechrau datblygu cryn ddiddordeb a balchder yng nghymunedau lleol Merthyr trwy greu nifer o gerfluniau coed. Mae ganddo'r potential i ddatblygu mwy o agweddau o'r dreftadaeth leol fel y bydd yn ymagor, mewn cydweithrediad ag ystod eang o asiantaethau o'r tu allan megis amgueddfeydd lleol a'r Brifysgol Agored.

**Menter Ysgolion y Dretadaeth Gymreig**
*Gwobr:* **£350**

## YSGOL TRYFAN
## Gwynedd

### *Teitl:* Bwyd a Bywyd Bangor

Bu'r disgyblion yn astudio 'bwyd' fel pwnc, gan ystyried gofynion dietegol crefyddau gwahanol, dysgu am hanes bwydydd gwahanol, ac astudio effeithiau 'milltiroedd bwyd' a chynlluniau masnach deg ar gynhyrchwyr bwyd.

Mae'n amlwg fod y disgyblion wedi mwynhau'r prosiect yma, a gwnaethant ddefnydd da o'u sgiliau ymchwil a gwerthuso i greu bwydlen ar gyfer stondin fwyd rhithiol, a chreu posteri, cyflwyniadau a chwarae rôl. Maent yn gobeithio creu eu stondin fwyd eu hunain i hyrwyddo bwydydd masnach deg ym Marchnad Stryd Bangor yn y dyfodol.

**Sefydliad Hodge**
*Gwobr:* **£200**

## YSGOL HENRY RICHARD
## Ceredigion

### *Teitl:* Ail Gysegru Cofebion Cyn-ddisgyblion

Dechreuodd y prosiect hwn o ganlyniad i ymweliad ESTYN a gaeodd un o hen adeiladau'r ysgol am resymau iechyd a diogelwch. Roedd yr adeilad yn gartref i gofebion i gyn-ddisgyblion a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd. Anogwyd y disgyblion i ddarganfod mwy am yr enwau ar y gofeb trwy gydweithio'n agos gyda hanesydd lleol. At hyn, bu'n rhaid trefnu symud y cofebion a'u hailgysegru yn neuadd bresennol yr ysgol. Ceir yma brosiect cyffrous gyda buddion anfesuradwy i'r ysgol a'r gymuned leol.

**Tystysgrif Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig**

## YSGOL GYFUN RHYDYWAUN
## Rhondda Cynon Taf

### *Teitl:* Y Pyllau Glo / The Coal Mines

Roedd y gwaith a gyflwynwyd i'r gystadleuaeth wedi ei ddatblygu gan yr Adran Gelf fel rhan o brosiect trawsgwricwlaidd ar hanes a diwylliant yr ardal a Chymru. Roedd disgyblion Blwyddyn 9 wedi astudio lluniau Valerie Ganz o lowyr, ac wedi peintio eu dehongliadau eu hunain ei o'l gwaith fel paratoad at y portffolios o waith fydd eu hangen ar gyfer TGAU.

Welsh Heritage Schools Initiative — Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

# Enillwyr Gwobrau 2023
# Addysg Arbennig a Darpariaeth Amgen

HODGE FOUNDATION

**Sefydliad Hodge**
*Gwobr:* **£800**

## YSGOL SANT CHRISTOPHER
**Wrecsam**

### *Teitl:* Cynefin, Cymuned, Cae Ras
### Local Area, Community, Racecourse Ground

Canolbwyntiodd y prosiect ysgol gyfan hwn ar ddylanwad Clwb Pêl-droed Wrecsam ar y dref a chymuned yr ysgol. Mae gan Glwb Pêl-droed Wrecsam, un o'r clybiau pêl-droed hynaf yng Nghymru, y DG ac Ewrop ran ganolog yn natblygiad yr ardal.

Roedd y disgyblion yn gyffrous fod y tîm pêl-droed wedi ennill dyrchafiad i'r gynghrair genedlaethol yn ddiweddar a ledled yr ysgol roedd dealltwriaeth o hynny a balchder ynddo. Mae'r ysgol yn cymryd rhan weithredol yn natblygiad y stadiwm newydd sy'n dal yn cael ei gynllunio. Rhoddodd ymweliadau ag amgueddfa'r dref a'r stadiwm ddealltwriaeth iddynt o dreftadaeth hir y clwb. Llwyddodd yr ysgol i wahodd ymwelwyr i drafod gorffennol, presennol a dyfodol y clwb.

Archwiliwyd datblygiad y tîm menywod, ac ymwelodd aelodau ohono â'r ysgol i annog a hyrwyddo cymryd rhan mewn chwaraeon. Defnyddiodd disgyblion hŷn lwyfannau cyfryngau cymdeithasol i gysylltu â chwaraewyr, rheolwyr a chefnogwyr i drafod y prosiect a'i ddatblygiad. Mae hwn yn brosiect tymor-hir a fydd yn parhau. Mae cynlluniau ar y gweill i'r ysgol arddangos y prosiect yn y stadiwm ac mae Taith Dreftadaeth Clwb Pêl-droed Wrecsam wedi ei datblygu gan yr ysgol.

**Sefydliad Hodge**
*Gwobr:* **£450**

## YSGOL HEOL GOFFA
## Sir Gaerfyrddin

### *Teitl:* Natur Am Byth - Nature forever

Roedd prosiect Ysgol Heol Goffa wedi ei gynllunio a'i drefnu'n dda, gan ganolbwyntio ar y materion pwysig iawn yn gysylltiedig â gwerthfawrogi, mwynhau a diogelu eu hamgylchedd.

Cymerodd disgyblion ar draws yr ysgol ran yn y prosiect gan gynhyrchu amrywiaeth o dystiolaeth yn cynnwys celf, crefft a ffotograffau wedi eu cyflwyno gan ddefnyddio dulliau amlsynhwyraidd. Cafodd y disgyblion gyfle i ymweld â chanolfannau amgylcheddol lleol ac ardaloedd cadwraeth. Roedd y prosiect yn eang ei ystod ac yn ymwneud â nifer o faterion yn yr amgylchedd lleol.

Roedd yr ysgol yn falch i allu gwahodd ymwelwyr i'r ysgol unwaith eto i helpu datblygu sgiliau newydd a siarad am faterion amgylcheddol.

**Gwobr Goffa Catherine a Daniel Phillips**
*Gwobr:* **£250**

## YSGOL PEN Y BRYN
## Abertawe

### *Teitl:* Celebrating 50 Years of Ysgol Pen y Bryn (Dathlu 50 mlynedd o Ysgol Pen y Bryn)

Ym mlwyddyn jiwbilî aur yr ysgol, archwiliodd y disgyblion hanes yr ysgol. Ymwelon nhw â Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg yn Abertawe a darganfod ffotograffau a gwybodaeth hanesyddol am Ben y Bryn.

Bu disgyblion o amrywiol oedran a galluoedd yn cyfweld aelodau o staff cyfredol a rhai wedi ymddeol a gofynnon nhw gwestiynau am nawr, 'slawer dydd a beth nesa. Archwiliwyd llyfrau lloffion a gadwyd gan aelodau hirhoedlog o staff a chymharwyd hynny â'r ysgol ar hyn o bryd. Edrychodd y disgyblion ymlaen hefyd at ddatblygiadau pellach yn yr ysgol.

Welsh Heritage Schools Initiative
Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

AMGUEDDFA CYMRU

# TARIANNAU

Cyflwynir tariannau Amgueddfa Cymru
i'r ymgais orau ym mhob categori.

**Y Cyfnod Sylfaen**
**YSGOL GYNRADD MAERDY**

**Ysgolion Cynradd ac Iau – Prosiectau Ysgol Gyfan**
**YSGOL GYNRADD BAGLAN**

**Ysgolion Cynradd ac Iau**
**– Prosiectau Dosbarth a Grŵp Blwyddyn**
**YSGOL GYNRADD GYMRAEG TIRDEUNAW**

**Addysg Arbennig a Darpariaeth Amgen**
**YSGOL SANT CHRISTOPHER**

**Ysgolion Uwchradd**
**YSGOL BRO DINEFWR**

Welsh Heritage Schools Initiative
Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

EUSTORY

# GWOBR EUSTORY

**Mae EUSTORY yn rhwydwaith anffurfiol o fudiadau anllywodraethol sy'n cynnal cystadlaethau hanes yn seiliedig ar ymchwil ar gyfer pobl ifanc yn Ewrop. Cafodd y rhwydwaith ei sefydlu gan Sefydliad Körber yn yr Almaen ac mae'n cysylltu 28 gwlad.**

Mae Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yn aelod ohono a hi yw'r unig aelod o'r DG. Ymhlith y gwledydd eraill a gynrychiolir mae yr Almaen, Iwerddon, Georgia, Israel, Portiwgal, Gwlad Pwyl, Estonia, Slofenia, y Swistir a'r Eidal.

Ar gyfer gwobr hanes EUSTORY MYDG gwahoddwyd myfyrwyr Bl12 a Bl13 i gyflwyno prosiect unigol, yn gysylltiedig â threftadaeth Gymreig ac yn seiliedig ar ymchwil, dadansoddi a gwerthuso.

Mae'r enillwyr yn derbyn gwobrau ariannol unigol a'r ddau enillydd gorau i'w hysgolion hefyd. At hyn bydd enillwyr yn gymwys i ymgeisio i gael mynychu Cynhadledd Flynyddol EUSTORY y Genhedlaeth Nesaf gydag Ewropeaid ifainc eraill. Cynhelir Cynhadledd 2023 ym Mhrâg yr Hydref hwn a bydd yn canolbwyntio ar ddeialog a phrofiadau rhyng-ddiwylliannol.

# Enillwyr Gwobrau 2023

**MIRAIN FRANCIS**
**Ysgol Gyfun Gŵyr**
**Gwobr Goffa Herburt Hewell**
*Gwobr:* **£100 gwobr unigol.**
**Sefydliad Moondance**
*Gwobr:* **£100 i'r ysgol.**

*Teitl:* **I ba raddau mae mudo yn cael effaith ar nifer y siaradwyr Cymraeg**

**ALICE JEWELL**
**Ysgol Gyfun Gŵyr**
**GWOBR MYDG**
*Gwobr:* **£50 gwobr unigol.** *Gwobr:* **£50 i'r ysgol.**

*Title:* **I ba raddau mae dwyieithrwydd yn dylanwadu ar ddeallusrwydd academaidd plant a phobl ifanc?**

**GABRIEL QUERSHI**
**Ysgol Bro Edern**
**GWOBR MYDG**
*Gwobr:* **£50 gwobr unigol.** *Gwobr:* **£50 i'r ysgol.**

*Title:* **Dylai Cymru fod yn wlad annibynnol**

**LILY LANGABEER**
**Coleg Gŵyr, Abertawe**
**GWOBR MYDG**
*Gwobr:* **£20 gwobr unigol.**

*Title:* **Watered Down Wales: A brief history of the erasure of Welsh culture (Cymru wedi ei glastwreiddio: Hanes cryno dileu'r diwylliant Cymreig)**